OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2493

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Hydref 2013.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bwyd" yr ystyr a roddir i "food authority" gan adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "Cyfarwyddeb 76/621" (*"Directive 76/621"*) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 76/621/EEC sy'n ymwneud â phennu'r lefel uchaf o asid erwsig mewn olewau a brasterau a fwriedir fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd(**1**);

ystyr "Cyfarwyddeb 80/891" (*"Directive 80/891"*) yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/891/EEC sy'n ymwneud â dull y Gymuned o benderfynu maint y cynnwys o asid erwsig mewn olewau a brasterau y bwriedir eu defnyddio fel y cyfryw ar gyfer eu bwyta gan bobl ac mewn deunyddiau bwyd sy'n cynnwys olewau neu frasterau a ychwanegwyd(**2**);

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Rheoliad 1881/2006" *("Regulation 1881/2006")* yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(**3**);

ystyr "Rheoliad 629/2008" ("*Regulation 629/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 629/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(**4**);

ystyr "Rheoliad 124/2009" ("*Regulation 124/2009*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 124/2009 sy'n pennu lefelau uchaf ar gyfer presenoldeb cocsidiostatau neu histomonstatau mewn bwyd o ganlyniad i drosglwyddiad anochel y sylweddau hyn mewn bwydydd anifeiliaid nad ydynt yn darged(**5**);

(**1**) OJ Rhif L202, 28.7.1976, t.35.Diwygiwyd y Gyfarwyddeb hon ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 807/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.36).
(**2**) OJ Rhif L254, 27.9.1980, t.35.
(**3**) OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddiwygio gan Reoliadau'r Comisiwn (EC) Rhifau 1126/2007 (OJ Rhif L255, 29.9.2007, t.14), 565/2008 (OJ Rhif L160, 19.6.2008, t.20), 629/2008 (OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6), 105/2010 (OJ Rhif L35, 6.2.2010, t.7) a 165/2010 (OJ Rhif L50, 27.2.2010, t.8), 420/2011 (OJ Rhif L111, 30.4.2011, t.3), 835/2011 (OJ RhifL215, 20.8.2011, t.4), 1258/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.15), 1259/2011 (OJ Rhif L320, 3.12.2011, t.18),594/2012 (OJ Rhif L176, 6.7.2012, t.43) a 1058/2012 (OJ Rhif L313, 13.11.2012, t.14).
(**4**) OJ RhifL173, 3.7.2008, t.6.
(**5**) OJ Rhif L40, 11.2.2009, t.7. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddiwygio gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 610/2012 (OJ Rhif L178, 10.7.2012, t.1).

ystyr “Rheoliad 165/2010” (“*Regulation 165/2010*”) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 165/2010 sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1881/2006 sy’n pennu lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd o ran afflatocsinau(**6**);

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi’n ysgrifenedig, naill ai’n gyffredinol neu’n benodol, gan awdurdod bwyd, i weithredu mewn materion sy’n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy’n cyfateb iddo yng Nghyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891, Rheoliad 1881/2006 neu Reoliad 124/2009 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag y sydd i’r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau neu’r Cyfarwyddebau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl o Gyfarwyddeb 76/621, Cyfarwyddeb 80/891, Rheoliad 1881/2006, Rheoliad 124/2009, neu at Atodiad i’r Cyfarwyddebau neu’r Rheoliadau hynny, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodiad hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd, a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at y Cyfarwyddebau neu’r Rheoliadau hynny yn unol â hynny.

(4) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf wedi eu neilltuo—

(a) gan orchymyn o dan adran 2 neu 7 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**7**), i awdurdod iechyd porthladd; neu

(b) gan orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**8**), i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig;

rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd, i’r graddau y mae’r cyfeiriad yn ymwneud â’r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y’u neilltuwyd iddo felly.

(**6**) OJ Rhif L50, 27.2.2010, t.8.
(**7**) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.
(**8**) 1936 p.49; rhaid darllen adran 6ynghyd â pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.